OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 4003 (Cy.331)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cyfyngu'r Defnydd ar Beledi Plwm) (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *13 Rhagfyr 2001* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Medi 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

(i) ar ôl ymgynghori â'r pwyllgor a sefydlwyd(**1**) o dan adran 140(5) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**2**);

(ii) ar ôl cyhoeddi hysbysiad yn y *London Gazette* yn unol ag adran 140(6)(b) o'r Ddeddf honno;

(iii) ar ôl ystyried y sylwadau a gyflwynwyd yn unol â'r hysbysiad hwnnw;

o'r farn ei bod yn briodol gwneud y Rheoliadau hyn er mwyn atal y sylweddau neu'r eitemau a bennir ynddynt rhag llygru'r amgylchedd a niwedio iechyd anifeiliaid, ac felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 140 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**3**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:—

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cyfyngu'r Defnydd ar Beledi Plwm) (Cymru) 2001 ac maent yn dod i rym ar 1 Medi 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

### Dehongli

**2.** —Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "aderyn gwyllt" ("*wild bird*") yw unrhyw aderyn o fath sy'n preswylio'n gyffredin yng Nghymru yn gyffredinol, neu sy'n ymweld â Chymru, mewn cyflwr gwyllt.

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu unrhyw berson y mae swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol o dan y Rheoliadau

(**1**) O.S. 1991 Rhif 1487
(**2**) 1990 p. 43.
(**3**) Trosglwyddwyd y pwerau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999 Rhif 672).

hyn wedi'u dirprwyo iddynt yn unol ag adrannau 62 neu 63 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**);

ystyr "gwn cetris" ("*shot gun*") yw gwn â baril llyfn ond nid yw'n cynnwys unrhyw wn cetris â siambr ar gyfer cetris ymyl-danio naw milimetr neu lai;

ystyr "peledi plwm" ("*lead shot*") yw unrhyw beledi sydd wedi'u gwneud—

(a) o blwm, neu

(b) o unrhyw aloi neu gyfansoddyn plwm a phlwm yn ffurfio mwy nag 1% o'r aloi neu'r gyfansoddyn hwnnw;

ystyr "person awdurdodedig" ("*authorised person*") yw person a awdurdodwyd o dan reoliad 4(1) isod;

mae "safle" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw dir, cerbyd neu gwch, ond nid yw'n cynnwys safle sy'n cael ei ddefnyddio ddibenion preswyl;

ystyr "safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig" ("*site of special scientific interest*") yw ardal sydd wedi ei hysbysu o dan adran 28(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(**5**);

### Gwahardd defnyddio cetris sy'n cynnwys peledi plwm

**3.** Ni chaiff neb ddefnyddio peledi plwm er mwyn saethu gyda gwn cetris—

(a) ar unrhyw fan islaw'r marc penllanw neu drosti;

(b) ar y safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig a gynhwysir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau neu drostynt; neu

(c) unrhyw aderyn gwyllt a gynhwysir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau.

### Pwerau mynediad er mwyn penderfynu a dorrwyd unrhyw ddarpariaethau'r Rheoliadau

**4.**—(1) Gall person sy'n ymddangos yn addas i'r Cynulliad Cenedlaethol gael ei awdurdodi yn ysgrifenedig gan y Cynulliad Cenedlaethol i arfer, yn unol â thelerau'r awdurdod, unrhyw un o'r pwerau a bennir ym mharagraff (2) isod at ddiben penderfynu a dorrwyd unrhyw ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn.

(2) Dyma'r pwerau y gall person awdurdodedig gael ei awdurdodi i'w harfer o dan baragraff (1) uchod—

(a) mynd i mewn ar unrhyw adeg resymol i unrhyw safle y mae gan y person awdurdodedig le i gredu ei bod yn angenrheidiol mynd i mewn iddo;

(b) wrth fynd i mewn i unrhyw safle yn rhinwedd ag is-baragraff (a) uchod bod gydag ef:

(i) unrhyw berson awdurdodig arall;

(ii) os bydd sail resymol dros ddisgwyl unrhyw rwystr difrifol a fyddai'n atal y person awdurdodedig rhag cyflawni ei ddyletswydd, gwnstabl; ac

(iii) unrhyw gyfarpar (heblaw cyfarpar trwm) neu ddefnyddiau y mae eu hangen at unrhyw ddiben mae'r pŵer mynediad ar ei gyfer;

(c) wneud unrhyw archwiliad ac ymchwiliad sy'n angenrhediol o dan yr amgylchiadau;

(ch) cymryd unrhyw aderyn gwyllt sy'n farw neu wedi'i anafu neu beri bod samplau yn cael eu cymryd o unrhyw eitemau neu sylweddau sy'n cael eu darganfod mewn neu ar unrhyw safle y mae gan y person awdurdodedig bŵ er i fynd i mewn iddo ac i beri bod unrhyw aderyn neu sampl felly yn cael ei ddadansoddi neu'i brofi;

(**4**) 1998 p. 38.
(**5**) 1981 p. 69.

(d) yn achos unrhyw aderyn neu sampl a grybwyllir yn is-baragraff (ch) uchod, cymryd meddiant ohono a'i gadw gyhyd ag y mae ei angen at y cyfan neu unrhyw rai o'r dibenion canlynol, sef:

(i) ei archwilio, neu beri iddo gael ei archwilio, ac i wneud unrhyw beth iddo y mae gan y person awdurdodedig bŵ er i'w wneud o dan yr is-baragraff hwnnw neu beri i hynny gael ei wneud;

(ii) i sicrhau na fydd neb yn ymyrryd ag ef cyn bod yr archwiliad ohono wedi'i gwblhau;

(iii) sicrhau ei fod ar gael i'w ddefnyddio fel tystiolaeth mewn unrhyw achos llys ar gyfer tramgwydd;

(3) Pan fydd person awdurdodedig yn bwriadu mynd i mewn i unrhyw safle a—

(a) bod mynediad wedi cael ei wrthod a bod y person awdurdodedig yn disgwyl ar seiliau rhesymol y gall fod yn angenrheidiol defnyddio grym i lwyddo i fynd mewn; neu

(b) bod y person awdurdodedig yn disgwyl, ar seiliau rhesymol, y bydd mynediad yn debyg o gael ei wrthod ac y gall fod yn angenrheidiol i ddefnyddio grym i lwyddo i fynd i mewn,

rhaid mynd i mewn i'r safle hwnnw yn rhinwedd y rheoliadau hyn o dan awdurdod gwarant yn rhinwedd paragraff (4) isod yn unig.

(4) Os dangosir i ynad heddwch drwy dystiolaeth ysgrifenedig ar lw—

(a) bod yna seiliau rhesymol dros arfer, mewn perthynas ag unrhyw safle, bŵ er o dan y rheoliad hwn (gan gynnwys pŵer sy'n arferadwy yn unol â gwarant o dan y paragraff hwn), a

(b) bod un neu fwy o'r amodau a bennir ym mharagraff (5) isod wedi ei gyflawni,

gall yr ynad awdurdodi'r Cynulliad Cenedlaethol trwy warant i ddynodi person a awdurdodir i arfer y pŵer mewn perthynas â'r safle, yn unol â'r warant a thrwy rym os bydd angen.

(5) Yr amodau a grybwyllir yn is-baragraff (4)(b) uchod yw—

(a) bod arfer y pŵer mewn perthynas â'r safle wedi'i wrthod;

(b) y disgwylir yn rhesymol y bydd yn cael ei wrthod;

(c) bod y safle heb ei feddiannu;

(ch) bod y meddiannydd yn absennol dros dro o'r safle a bod yr achos yn un brys; neu

(d) y byddai cais am fynediad i'r safle yn trechu diben y mynediad arfaethedig.

(6) Bydd pob gwarant a rodddwyd o dan baragraff (4) uchod yn parhau mewn grym nes bod y dibenion y rhoddwyd y gwarant ar eu cyfer wedi eu cyflawni.

(7) Rhaid i berson awdurdodedig, neu berson a ddynodwyd o dan baragraff (4) uchod, ddangos tystiolaeth am yr awdurdod neu'r dynodiad (os gofynnir iddo wneud hynny).

(8) Rhaid i berson awdurdodedig, neu berson a ddynodwyd o dan baragraff (4) uchod, sydd, trwy arfer unrhyw bŵ er a roddir gan y rheoliad hwn, yn mynd i mewn i unrhyw safle nad yw wedi'i feddiannu neu y mae ei feddiannydd yn absennol dros dro, adael y safle wedi ei sicrhau yn erbyn tresmaswyr yr un mor effeithiol â chyn i'r person hwnnw fynd i mewn iddo.

(9) Ni fydd person awdurdodedig, neu berson a ddynodwyd o dan baragraff (4) uchod, yn atebol mewn unrhyw achos sifil na throseddol am unrhyw beth a wnaed trwy honni arfer unrhyw bŵ er a roddir gan y rheoliad hwn os bydd y llys wedi'i fodloni bod y weithred wedi ei chyflawni'n ddidwyll a bod seiliau rhesymol dros ei chyflawni.

**Tramgwyddau**

**5.**—(1) Bydd unrhyw berson sy'n torri rheoliad 3 uchod neu sy'n peri neu'n caniatáu i unrhyw berson arall dorri'r rheoliad hwnnw yn euog o dramgwydd a bydd yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(2) Bydd unrhyw berson sy'n fwriadol yn rhwystro person sy'n gweithredu trwy arfer unrhyw bŵ er o dan reoliad 4 uchod yn euog o dramgwydd ac yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**)

*D. Elis-Thomas*
13 Rhagfyr 2001 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**6**) 1998 p.38.

## ATODLEN 1

**Rheoliad 3(b)**

## SAFLEOEDD O DDIDDORDEB GWYDDONOL ARBENNIG

| Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig | Dyddiad Dynodi o dan adran 28(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 | Lleoliad (Cyfeirnod Grid OS) (gweler y nodyn isod) |
|---|---|---|
| Angle Bay | 04/03/1993 | SM883025 |
| Beddmynach-Cymyran | 25/09/1998 | SH275790 |
| Broadwater | 13/01/1993 | SH582027 |
| Burry Inlet and Loughor Estuary | 25/09/1989 | SS135985 |
| Carew and Cresswell Rivers | 04/03/1993 | SN025055 |
| Cosherton Pill | 04/03/1993 | SM990036 |
| Daugleddau | 04/03/1993 | SN003116 |
| Dee Estuary | 23/09/1998 | SJ220800 |
| Dyfi | 14/03/1995 | SN635950 |
| Flatholm | 10/03/1993 | ST220649 |
| Gronant Dunes / Talacre Warren | 29/01/1998 | SJ100847 |
| Inner Marsh Farm | 11/02/1995 | SJ307735 |
| Laugharne and Pendine Burrows | 18/02/1990 | SN290070 |
| Llyn Alaw | 29/03/1985 | SH390865 |
| Llyn Syfaddan / Llangorse Lake | 09/02/1983 | SO133265 |
| Llyn Traffwll | 18/02/1986 | SH325770 |
| Llynnoedd y Fali / Valley Lakes | 22/05/1986 | SH310770 |
| Morfa Harlech | 25/05/2001 | SH570660 |
| Ynys Llanddwyn / Newborough Warren | 09/03/1995 | SH400640 |
| Pembrey Coast | 10/11/1983 | SN316054 |
| Pembroke River and Pwll Crochan Flats | 04/03/1993 | SM940025 |
| Severn Estuary | 02/02/1989 | ST226758 |
| Shotton Lagoon and Reedbeds | 19/10/1999 | SJ298709 |
| Sully Island | 16/12/1986 | ST167670 |

**Nodyn:** Mae cyfeirnod Grid Cenedlaethol yr Arolwg Ordnans yn rhoi pwynt o fewn y safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig.

| Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig | Dyddiad Dynodi o dan adran 28(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 | Lleoliad (Cyfeirnod Grid OS) (gweler y nodyn isod) |
|---|---|---|
| Teifi Estuary | 08/12/1997 | SN158502 |
| | | SN785675 |
| Traeth Lafan | 24/09/1984 | SH630750 |
| Whiteford Burrows and Landimore Marsh | 04/04/1984 | SS450955 |

**Nodyn:** Mae cyfeirnod Grid Cenedlaethol yr Arolwg Ordnans yn rhoi pwynt o fewn y safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig.

## ATODLEN 2

Rheoliad 3(c)

## ADAR GWYLLT MEWN PERTHYNAS Â HWY Y MAE'R GWAHARDDIAD AR SAETHU Â PHELENNI PLWM YN GYMWYS IDDYNT

| Enw Cyffredin | Enw Gwyddonol/ |
|---|---|
| Cwtiar | *Fulica Atra* |
| Hwyaid a Gwyddau (holl rywogaethau pob un ohonynt) | *Anatidae* |
| Iâr Ddŵ r | *Gallinula chloropus* |

**Nodyn:** Mae'r enw neu'r enwau cyffredin yn cael eu cynnwys fel canllaw yn unig; os bydd unrhyw anghydfod neu achos, rhaid peidio a chymryd yr enw neu'r enwau cyffredin i ystyriaeth.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru, yn gwahardd defnyddio peledi plwm ar gyfer saethu â gwn cetris—

(a) ar unrhyw fan islaw'r marc penllanw neu drosti;

(b) ar y safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig a gynhwysir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau neu drostynt; neu

(c) unrhyw aderyn gwyllt a gynhwysir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau sef hwyaid a gwyddau (pob rhywogaeth o bob un ohonynt), cwtiar ac iâr ddŵ r (rheoliad 3).

Ystyr "peledi plwm" yw unrhyw beledi o blwm neu o unrhyw aloi neu gyfansoddyn plwm a phlwm yn ffurfio mwy nag 1% o'r aloi neu'r cyfansoddyn (rheoliad 2).

Mae rheoliad 4 yn darparu ar gyfer pwerau mynediad ac archwilio, pŵer i gymryd samplau, a phŵer i gymryd unrhyw adar meirw neu rai sydd wedi'u hanafu, er mwyn penderfynu a dorrwyd unrhyw ddarpariaethau'r Rheoliadau.

Mae Rheoliad 5 yn darparu bod torri rheoliad 3, neu rwystro person sy'n arfer unrhyw bŵ er o dan reoliad 4, yn dramgwydd troseddol y gellir ei gosbi drwy ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Cofrestrir hysbysiadau o safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig o dan adran 28(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fel pridiannau tir lleol (adran 28(9) o'r Ddeddf honno).

Gellir cael manylion o'r ardaloedd sy'n cael eu cynnwys yn y safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig a restrir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Plas Penrhos, Ffordd Penrhos, Bangor, Gwynedd, LL57 2LQ.